

Taflen Wybodaeth

Archwiliad Fagina, Archwiliad Sbecwlwm a Hebryngwr

Mae'r daflen hon yn darparu gwybodaeth bwysig am archwiliadau fagina a sbecwlwm. Rydym am i chi deimlo'n wybodus, yn ddiogel ac yn gyfforddus drwy gydol y broses.

Archwiliad Fagina

Efallai y bydd archwiliad fagina yn cael ei argymhell i asesu iechyd eich fagina ac organau pelfig eraill. Mae'n cynnwys meddyg neu nyrs yn archwilio'r fagina'n ysgafn gan ddefnyddio dwylo â menig. Gellir gwneud hyn i wirio am unrhyw bryderon fel anghysur, haint neu i asesu cynnydd yn y cyfnod esgor.

Archwiliad Sbecwlwm

Dyfais fach sy'n cael ei mewnosod yn y fagina yw sbecwlwm i ganiatáu i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol archwilio ceg y groth. Gellir gwneud hyn i ymchwilio i symptomau, i gynnal sgrinio serfigol, neu i gymryd swabiau. Gellir defnyddio swabiau i brofi am heintiau, i wirio am arwyddion cynnar o esgor, neu am dystiolaeth bod eich dyfroedd wedi torri yn ystod beichiogrwydd. Efallai y bydd y driniaeth yn teimlo'n anarferol ond ni ddylai fod yn boenus.

Hebryngwr

Mae gennych hawl i gael hebryngwr hyfforddedig yn bresennol yn ystod eich archwiliad. Mae hebryngwr yn darparu sicrwydd a chefnogaeth ac yn sicrhau bod safonau proffesiynol yn cael eu cynnal.

Rydych chi mewn rheolaeth

Eich cysur a'ch urddas yw ein blaenoriaeth. Bydd yr arholiad yn cael ei egluro i chi cyn iddo ddechrau. Gallwch ofyn cwestiynau ar unrhyw gam. Os ydych chi'n teimlo'n anghyfforddus, gallwch ofyn am oedi neu atal yr archwiliad ar unrhyw adeg.

Os oes gennych unrhyw bryderon, siaradwch â'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.